***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2024 No. 388

# Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2024

## RHAN 10

## Gofynion ychwanegol ar ddarparwyr gwasanaethau mewn cysylltiad â mangreoedd – llety newydd

### Gofynion ychwanegol – lle cymunedol

**44.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i'r lle eistedd, hamdden a bwyta a ddefnyddir ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn unol â rheoliad 37(5) fod o leiaf—

(a) 4.1 metr sgwâr ar gyfer pob unigolyn;

(b) 5.1 metr sgwâr ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn.

(2) Ar gyfer mangre Categori B, mae'r rheoliad hwn yn gymwys fel bod rhaid i'r gofyniad o ran lle gael ei fodloni mewn perthynas ag unrhyw ystafelloedd ychwanegol i unigolion.